

Symud Arch yr Ymrwymiad (Arch y Cyfamod) i Jerwsalem

2 Samuel 5: 1-25, 6: 1-23; 1 Cronicl 11, 13, 15




Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

2 Samuel 5: 1-25, 6: 1-23; 1 Cronicl 11, 13, 15



- 1 Bu farw'r Brenin Saul a'i fab Jonathan mewn brwydr a daeth Dafydd yn frenin ar Israel. Roedd Dafydd yn 30 oed pan ddaeth yn frenin.



- 2 Bu'n frenin ar Jwda yn Hebron am saith mlynedd a hanner. Yna penderfynodd fynd i Jerwsalem i ymladd yn erbyn y Jebwsiaid.



- 3 Doedden nhw ddim yn credu y gallai Dafydd eu gorchfygu nhw. "Ddoi di byth i mewn yma!" medden nhw, "Byddai hyd yn oed pobl ddall a chloff yn gallu dy droi di'n ôl!"



-
- 4 Ond llwyddodd Dafydd i ennill caer Seion. Aeth Dafydd i fyw i'r gaer, a'i galw yn Ddinas Dafydd. Dyma fe'n adeiladu o'i chwmpas o'r terasau at y palas. Roedd Dafydd yn mynd yn fwy a mwy pwerus, achos roedd yr ARGLWYDD, y Duw hollbwerus, gydag e.



-
- 5 Dyma Hiram, brenin Tyrus, yn anfon negeswyr at Dafydd. Anfonodd seiri coed a seiri maen gyda nhw, a coed cedrwydd, i adeiladu palas i Dafydd. Roedd Dafydd yn gweld mai'r ARGLWYDD oedd wedi ei wneud yn frenin ar Israel, ac wedi gwneud i'w deyrnas lwyddo'n fawr er mwyn ei bobl Israel.



-
- 6 Roedd Arch yr Ymrwymiad (Arch y Cyfamod) wedi bod yn nhŷ Abinadab yn Ciriath-iearim (sef Baäla) am nifer o flynyddoedd. Roedd Dafydd eisiau symud arch Duw i Jerwsalem.




-
- 7 Dyma Dafydd a pobl Israel i gyd yn mynd i Baäla (sef Ciriath-iearim) i nôl Arch Duw. Dyma nhw'n gosod yr Arch ar gert newydd, a'i symud hi o dŷ Abinadab, gydag Wssa ac Achïo yn arwain y cert. Ond doedd Dafydd ddim wedi gofyn i Dduw am y ffordd iawn i symud yr Arch. Dim ond y Lefiaid oedd i fod i gario'r Arch, a neb arall.



-
- 8 Roedd Dafydd a phobl Israel i gyd yn dathlu gyda hwyl o flaen Duw, a canu i gyfeiliant telynau a nablau, tambwrinau, symbolau ac utgyrn.



-
- 9 Pan gyrhaeddodd nhw lawr dyrnau Cidon, dyma'r ychen yn baglu, a dyma Wssa yn estyn ei law i afael yn yr Arch. Roedd yr ARGLWYDD wedi digio gydag Wssa, a dyma fe'n ei daro'n farw am estyn ei law a chyffwrdd yr Arch. Bu farw yn y fan a'r lle o flaen Duw.



-
- 10 Roedd Duw wedi codi ofn ar Dafydd y diwrnod hwnnw. "Sut all Arch Duw ddod ata i?" meddai. Felly wnaeth Dafydd ddim mynd â'r Arch adre i Ddinas Dafydd. Aeth â hi i dŷ Obed-edom, dyn o Gath.



-
- 11 Arhosodd Arch yr ARGLWYDD yn y tŷ gyda teulu Obed-edom am dri mis. A dyma'r ARGLWYDD yn bendithio teulu Obed-edom a popeth oedd ganddo.



-
- 12 Yna dyma Dafydd yn dweud, "Dim ond y Lefiaid sydd i gario Arch Duw, neb arall. Nhw mae'r ARGLWYDD wedi eu dewis i gario'r Arch ac i'w wasanaethu am byth." Pan oedd y rhai oedd yn cario'r Arch wedi cerdded dim ond chwe cham, dyma Dafydd yn aberthu ychen a llo wedi ei besgi i Dduw.



-
- 13 Yna dyma Dafydd yn dweud wrth arweinwyr y Lefiad i ddewis rhai o'u perthnasau oedd yn gerddorion i ganu offerynnau cerdd, nablau, telynu a symbolau, ac i ganu'n llawen.



-
- 14 Roedd Dafydd a'r Lefiaid oedd yn cario'r arch, y cerddorion, a Cenaneia, arweinydd y côr, mewn gwisgoedd o liain main.




-
- 15 Felly dyma Israel gyfan yn hebrwng Arch Ymrwymiad yr ARGLWYDD gan weiddi, a chanu'r corn hwrdd ac utgyrn, symbolau, nablau a thelynu.



-
- 16 Wrth i Arch yr ARGLWYDD gyrraedd Dinas Dafydd, roedd Michal merch Saul yn edrych allan drwy'r ffenest. Pan welodd hi'r brenin Dafydd yn neidio a dawnsio, doedd hi'n teimlo dim byd ond dirmyg tuag ato.



-
- 17 Dyma nhw'n dod ag Arch Duw a'i gosod yn y babell roedd Dafydd wedi chodi iddi. Yna dyma nhw'n cyflwyno offrymau i'w llosgi ac offrymau i ofyn am fendith Duw. Yna dyma fe'n rhannu bwyd i bawb yn Israel. Cafodd pawb dorth o fara, teisen datys a teisen rhesin. Yna dyma'r bobl i gyd yn mynd adre, ac aeth Dafydd yn ôl i fendithio ei deulu ei hun.



-
- 18 Dyma Michal ei wraig, merch Saul, yn dod allan i'w gyfarfod. Ac meddai wrtho, "Wel, wel! Dylech fod wedi gweld brenin Israel heddiw! Dyna ble roedd e yn fflachio o flaen caethferched ei swyddogion, yn dangos popeth iddyn nhw fel rhyw ffŵl coman!". Ond dyma Dafydd yn ei hateb, "Na, dawnsio o flaen yr ARGWLWYDD oeddwn i — yr un wnaeth fy newis i yn lle dy dad a dy deulu di. Dewisodd fi yn arweinydd ar bobl Israel. O'i flaen e dw i'n fodlon gwneud mwy o ffŵl ohono i fy hun."



-
- 19 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

www.freebibleimages.org
